Bwletin Awdurdod S4C
Cyfarfod 290 –30 Mehefin 2006
S4C, Caerdydd

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 30 Mehefin 2006.

Adroddiad y Cadeirydd
Nodwyd y pwyntiau canlynol gan y Cadeirydd:

- Rhoddodd ganmoliaeth uchel i raglenni o Eisteddfod yr Urdd a hefyd y gwasanaethau ychwanegol ar bob llwyfan.
- Nododd bod Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon S4C yn cael ei gosod o flaen y Senedd ar 11eg o Orffennaf a'i gyhoeddi ar y 12fed.

Polisi Amddiffyn Data
Cymeradwywyd drafft o'r Polisi i'w gyhoeddi.

Adroddiad Ymchwil
Nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Ffigurau gwylio Eisteddfod yr Urdd.
- Ymchwil ar y cyd rhwng S4C/BBC/Bwrdd yr Iaith ar "Bywydau drwy'r Gymraeg" http://www.bwrdd-yr-iaith.org.uk/cynnwys.php?cID=&pID=109&nID=2165&langID=1

Adroddiad y Prif Weithredwr
Codwyd/nodwyd y pwyntiau canlynol:-

- **Ail Frandio** –gwaith ymchwil wedi ei wneud a bydd cyflwyniad i'r Awdurdod maes o law.
- **Buddsoddwyr Mewn Pobl** –S4C wedi ennill gwobr Buddsoddwyr Mewn Pobl a bod y safon yn uwch na thair mlynedd yn ôl.

Adroddiad Rhaglenni
Nodwyd/cytunwyd ar y canlynol:-

- Eisteddfod yr Urdd – bron i 34,000 o fideos wedi eu lawr-lwytho.
- Rygbi – darlledwyd y gêm brawf gyntaf yn ecscliwsif ar S4C o Batagonia a denwyd cynulleidfa gwylio da.
- Trafodwyd rhestr gwylio rhaglenni'r mis.

Materion Eraill

- Trafodwyd Rhaglen Waith yr Awdurdod a hefyd Tabl Digwyddiadau.
- Cafwyd cyflwyniad diddorol gan Beth Thoren ac Emyr Byron Hughes o Digital UK ar newid i ddigidol
- Adroddiad Ariannol.